**Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd nos Fawrth 15 o Fawrth 2022 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd). Avril Jones (Is-gadeirydd), Goronwy Hughes, Philip Roberts, Sioned Jones, Meirwen Lloyd, Richard Robinson, Martin Jones, Beca Brown, Berwyn Parry Jones.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alan Pritchard, Haf Williams

**954. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Dechreuodd y cyfarfod drwy ddatgan fod Cemlyn Jones (Cwm y Glo) wedi ymddiswyddo o'r cyngor. Diolchodd i Cemlyn am ei waith i'r cyngor.

**Penderfynwyd:** Y Clerc y ysgrifennu at Cemlyn i ddatgan gwerthfawrogiad y cyngor iddo am ei wasanaeth.

**955. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**956. Datgan buddiant personol.**

I'w cofnodion fel yn briodol

**957. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 15 Chwefror 2022**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**958. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

**948 (5) –** Adroddwyd fod e-bost wedi anfon at yr Eglwys yng Nghymru am y wal ond hyd yma dim ymateb wedi dderbyn

**948 (6) –** adroddwyd fod trefniadau ar y gweill i gyfarfod a cynrychiolwyr o gwmnïau ymgymerwyr angladdau

**959. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

## Y Cyngor Sir

Parcio – Fe gofiwch y problemau parcio o gwmpas y sir yn ystod yr haf. Roedd rhaid i'r cyngor gysylltu hefo'r heddlu er mwyn cael symud rhai ceir. Erbyn hyn mae'r cyngor wedi cael hawliau i

wneud hyn eu hunain, ac yn gobeithio fydd ddim angen ei ddefnyddio yn rhy aml.

Campervans – Er mwyn annog perchnogion campervans i beidio aros dros nos mewn mannau sydd ddim yn addas mae Gwynedd yn mynd i dreialu lle dros nos iddynt, hefo cyfleusterau priodol – oddeuty 6 lleoliad  o fewn y sir. Ar ôl amser priodol fydd y treial yn cael ei werthuso i weld beth yw yr angen.

Newid Hinsawdd – Erbyn hyn mae Bwrdd Newid Hinsawdd y Cyngor wedi ei greu ac yn cyfarfod yn rheolaidd. Maent wedi cyhoeddi Cynllun gweithredu hefo nifer o brosiectau, ac hefyd mae £3miliwn wedi ei glustnodi at y flwyddyn yma. Y bwriad yw gwneud y Cyngor Sir yn garbon niwtral erbyn 2030. Hefyd i geisio ddylanwadu ar eraill o fewn y sir i wneud yr un fath.

Treth y cyngor - Penderfynnodd y cyngor llawn ar ôl peth trafodaeth i godi trethi o 2.95%.

**Yn Lleol**

Arwydd 30mya wedi dynnu i lawr ar geg stad Dolafon. Yr arwydd 30mya yn ceunant wedi ei symud yn bellach i fyny'r allt, fydd gobeithio yn help i arafu y traffig ynghynt. Hefyd mae asesiad o gyflymder ceir yn ardal Ceunant wedi ei wneud, dydi'r canlyniadau ddim wedi cael eu dadansoddi eto.

Mae cryn broblem hefo ceir yn cael eu gadael mewn mannau o gwmpas y ward hefo dim treth na MOT Un car wedi ei symud hyd yn hyn, ond mae dal waith i wneud i geisio symud rhai eraill.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**960. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

**(**Adroddiad i ddilyn)

**961. I ystyried cais am gymorth ariannol gan Glwb Pêl-droed Llanrug Unedig**

Fe ddatgelodd y Cynghorwyr Meirwen Lloyd a Beca Brown fuddiant personol yn yr eitem yma a ni gymerwyd rhan yn y drafodaeth.

**Penderfynwyd:** Caniatáu cymorth ariannol o  £1,000 i'r clwb pêl droed

**962. I ystyried cais am gymorth ariannol gan Seindorf Arian Llanrug**

Fe ddatgelodd y Cynghorydd Hefin Jones fuddiant personol yn yr eitem yma a ni chymerodd ran yn y drafodaeth

**Penderfynwyd:** Caniatáu cymorth ariannol o £800 i'r Seindorf Arian Llanrug

**963. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'. https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C22/0126/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Cais deiliad tŷ i dynnu'r estyniad unllawr at cefn y tŷ a lledaenu yr estyniad deulawr presennol yn ei le.
**Ymgeisydd:** Mr Iwan Griffith
**Asiant:** Mr Kevin Shipton (Ks Architecture)
**Cyfeiriad:** Gwynfa Ffordd Yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AG
**Cyfeirnod Grid:** 253565, 363520.57
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

Daeth y cyfarfod i ben am 20:35

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 19 Ebrill 2022